# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Mawrth 14eg, 2018 am saith o'r gloch

**PRESENNOL**

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Catherine Ll. Morris, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Cyng. Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebydd)

**YMDDIHEURIADAU**

Dylan Llwyd, Andrew T. Weir, William B. Williams a'r Cyng. John B. Hughes

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheurodd y Clerc na lwyddodd weithredu ar yr oll o'r penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod mis Chwefror oherwydd salwch ei thad.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 14eg, 2018 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| C18/0097/39/LL | Estyniad ac addasiadau – Hornblow Cottage, Llanengan **– Cefnogir oherwydd nad yw'n amharu ar unrhyw eiddo arall a'i fod yn y cefn** |
| C18/0098/39/LL | Dymchwel cwt glan môr presennol a chodi un newydd yn ei le – Cwt Glan Môr Ynys Fawr, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'r un maint â'r gwreiddiol ac, er y nodir yng Nghyflwyniad y Datganiad Dylunio a Mynediad mai "...codi un newydd yn lle un a ddinistriwyd yn stormydd gaeaf 2013-2014..." yw'r bwriad – dangosir yn glir iawn yn y llun atodedig y deil ar ei draed** |
| C18/0108/39/LL | Tynnu Amod 6 o Ganiatâd Cynllunio C10D/0491/39/LL sy'n amodi'r tŷ fod yn gartref parhaol – Graianfryn, Lôn Golff, Aber-soch – **Cefnogir** |
| C18/0127/39/LL | Adeiladu cwt glan môr yn lle'r un presennol – Cwt Glan Môr 27, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'r un maint â'r gwreiddiol ac, er y nodir yng Nghyflwyniad y Datganiad Dylunio a Mynediad mai "...codi un newydd yn lle un a** |

**ddinistriwyd yn stormydd gaeaf 2013-2014...” yw’r bwriad – dangosir yn glir iawn yn y llun atodedig y deil ar ei draed**

C18/0190/39/LL Adeiladu modurdy ar wahân ar gyfer storio cychod – The View Shop, Bwlchtocyn **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod ar nenlinell bryncyn amlwg mewn AHNE ac yn gynefin gwyllt naturiol ac nid fel nodir ym mhwynt 1.5 y Datganiad Cynllunio mai ei fwriad yw “...cadarnhau fod y safle’n cynrychioli un addas ar gyfer datblygiad tai...”**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

- Ni dderbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, parthed ariannu drysau.
- Er y derbyniwyd gohebiaeth yr ymatebid cyn gynted â phosibl i’r ymholiad am agor caffi Marchros dros y Nadolig mis diwethaf, ni dderbyniwyd dim pellach.
- Derbyniwyd dau gopi o gytundeb 2018 – 2019 y toiledau – fe’u harwyddwyd a dychwelir un copi. Penderfynwyd, o ddeall na fwriada’r Cyngor agor y toiledau tymhorol tan Ebrill 1af, ysgrifennu i fynegi siomedigaeth yn hyn a gofyn i’r Adran ailystyried, yn arbennig gan fod y Cyngor hwn yn cyfrannu at eu cynnal.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o’r Is-bwyllgor i drafod pa offer a brynir i’r ddau gae chwarae.

c) **Meddygfa Aber-soch**

i) Ni lwyddwyd gwahodd Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyl Ardal Gofal Cychwynnol, i fynychu cyfarfod arbennig o’r Cyngor i fynegi na dderbynnir penderfyniad y Bwrdd Iechyd o gau’r Feddygfa.

ii) Derbyniwyd taflenni O Ddrws i Ddrws sy’n hysbysebu’r gwasanaeth newydd (Cynllun Peilot am dri mis) i drigolion y gymuned hon, gan gynnwys Llanbedrog, sy’n dechrau fore Mercher, Ebrill 4ydd ar gyfer eu cludo i apwyntiadau ym Meddygfa Rhydbach rhwng 10.30 a 12.15 o’r gloch.

ch) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Derbyniwyd ymateb oddi wrth berchennog/datblygwr adeilad y banc i’r llythyr a anfonwyd yn mynegi siomedigaeth yn enw’r siop hufen iâ newydd (‘Two Islands’). Ymddiheura am yr oedi a rho ychydig o gefndir y fenter cyn egluro y bwriada’r perchnogion (ei fab a’i gariad) ddefnyddio llefrith a chynnyrch lleol i wneud yr hufen iâ a’r Gymraeg ar y fwydlen ac wrth hysbysebu’r busnes; penderfynwyd rhoi pecyn Hunan*iaith* iddynt er gwybodaeth hefyd a gofyn am fwy i’w dosbarthu i bob siop/busnes yn y pentref (tua hanner cant, os yn bosibl).

d) **10. Gohebiaeth**: **a) Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o’r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr o’r cyfarfod ag aelodau’r Panel Adolygu yn Swyddfa Cyngor Tref Caernarfon a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf.

dd) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): ii)** ***Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol***

Derbyniwyd copi (63 tudalen) o’r arweinlyfr a gomisiynwyd gan NALC i’w ddefnyddio wrth sicrhau bod gofyniadau’r uchod yn weithredol erbyn Mai 25ain.

e) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC): iv)** ***Bwletin mis Ionawr – Templed Newydd Cynllun Iaith Gymraeg***

Ni chafwyd cyfle i'w baratoi, h.y. cynnwys/ychwanegu/addasu'r un cyfredol er mwyn ei fabwysiadu a'i anfon at Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i gael ei sêl bendith.

f) **10. Gohebiaeth: b) Llywodraeth Cymru – Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft**

Adroddodd yr Aelod Lleol bod angen iddo ymateb i'r Cyngor erbyn dydd Gwener ac yr anfonai gopi ohono at y Clerc, er gwybodaeth. Penderfynwyd y paratoid ymateb erbyn cyfarfod mis nesaf, gan mai Ebrill 23ain yw'r dyddiad cau. Gofynnodd y Clerc i'r Aelodau anfon unrhyw sylw ati cyn gynted â phosibl.

ff) **10. Gohebiaeth: dd) Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Ailfodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd**

Derbyniwyd ymateb i'r cais am fwy o wybodaeth am yr uchod – sylweddolir y pennwyd praeseptau ac mai gofyn i gynghorau ddatgan diddordeb yn unig a wneir ar hyn o bryd; penderfynwyd y datganid diddordeb yn y cynnig cyntaf, sef ystyried ariannu Clwb Ieuenctid â'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei redeg. O ran y Ffermwyr Ifanc, nodwyd yr awgrymwyd na ddylai'r Cyngor barhau rhoi nawdd i'r Mudiad gyflogi trefnydd sirol ond, ei fod yn awyddus cydweithio ac y digwyddai hynny drwy drefn comisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol yn ôl anghenion pobl ifanc.

5. **MYNWENT**

Nid oedd mater i'w drafod.

6. **CYFRIFON**

a) **Cytundeb Trydan y Toiledau**

Wrth baratoi cadarnhâd y parheid y cytundeb â npower, sylweddolwyd fod y pris tipyn uwch nag un e-on – eglurwyd y costia mwy i'r cwmni gyflenwi trydan i'r toiledau nag a ddefnyddir. O ganlyniad, derbyniwyd cytundeb tair blynedd e-on am 27c yr uned y dydd ac 20.777c y kWh â disgownt 7% wrth dalu'n fisol.

b) **Un Llais Cymru – Paratoi Cyllideb 2018 – 2019 – Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Derbyniwyd copi o'r uchod, sy'n cynnwys cynigion a ddaw i rym yn y flwyddyn ariannol nesaf; penderfynwyd cadw at beidio â derbyn unrhyw daliad, yn unol â pholisi'r Cyngor a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd 2016. Trefnwyd digwyddiad i'w drafod (Clercod yn unig) yn Llandudno ar Fai 9fed – Cyfarfod Blynyddol y Cyngor y noson honno.

Derbyniwyd copi o ohebiaeth rhwng Clerc Cyngor Cymuned Llandwrog a Paul Clayden, Arbenigwr Cyfreithiol cylchgrawn SLCC, a Chlerc Cyngor Tref Caernarfon parthed y taliad hefyd ond, ni chafodd y Clerc gyfle i'w darllen/gweithredu'n iawn cyn heno.

c) **Ceisiadau Ariannol**

Ni lwyddwyd trefnu cyfarfod o'r Is-bwyllgor i drafod y ceisiadau a dderbyniwyd. O ganlyniad, fe'u dyfarnwyd gan y Cyngor llawn heno – gweler cofnod 12. Cadarnhau

Taliadau a Derbyniadau isod – ar wahân i un Parêd Dewi Sant Pwllheli, gan na chynhaliwyd hi oherwydd y tywydd garw.

ch) **Swyddfa Archwilio Cymru – Adroddiad Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016 – 2017**
Copi, er gwybodaeth.

d) **Swyddfa Archwilio Cymru – Arolwg o Holl Gynghorau Cymuned a Thref Cymru**
Adolygiad o'r modd y darpara cyrff llywodraeth leol wasanaethau mewn cymunedau gwledig. Angen ymateb erbyn Ebrill 6ed.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned**
Ni dderbyniwyd ateb i'r llythyr mynegi siomedigaeth am y diffyg ymateb i ymholiadau drwy e-byst dros y misoedd diwethaf fel yr addawyd mis diwethaf.

b) **Datblygiad Cornwall, Mynytho**
Derbyniwyd gohebiaeth y symudodd y teuluoedd cyntaf i mewn i'w tai ac mae diddordeb a thrafodaethau ynglŷn â phrynu'r gweddill.

c) **Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn – Adnabod Llecynnau Agored**
Er mwyn hwyluso gweithredu Polisi ISA5 'Darparu Llecynnau Agored mewn Datblygiad Tai Newydd', a fabwysiadwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd llynedd, ceisir canfod beth yw'r ddarpariaeth bresennol o lecynnau agored. Adnaba'r mapiau lecynnau: hamdden ffurfiol/anffurfiol, rhai chwarae â chyfarpar, agored mwynderol a thir addysg. Mae angen adolygu'r map (Aber-soch yn unig ar hyn o bryd) er mwyn sicrhau bod pob tir agored o'r categorïau uchod yn cael eu hadnabod yn gywir; angen eu dychwelyd erbyn Ebrill 13eg.

ch) **10. Gohebiaeth: d) Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio**
Rhoddodd y Clerc adroddiad byr o'r gweithdy hyfforddiant a ganolbwyntiai ar geisiadau cynllunio yng Nghaernarfon; roedd swyddogion cynllunio Gwynedd yn bresennol hefyd. Deallwyd y mynychont gyfarfod o Gyngor Tref Caernarfon i fynd trwy'r drefn gynllunio ac adroddodd yr aelodau a oedd yn bresennol y bu'n fuddiol iawn iddynt – mae ganddynt well dealltwriaeth ohoni erbyn hyn; gofynnwyd a ystyrient ddod yma – buasent ond, i drafod y drefn yn unig, nid ceisiadau penodol; cysylltir i geisio trefnu dyddiad.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
i) Ni thynnwyd yr arwyddion system unffordd hyd yma er y dywedwyd ddiwedd mis Ionawr y gwneid hynny o fewn pythefnos.
ii) Nis anfonwyd sylwadau'r Cyngor hyd yma parthed y cynllun lleoliad.

b) **Blwch Post Llangian**
Ni osodwyd y blwch hyd yma.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth y Gwasanaeth Gwaith Bwrdeistrefol parthed yr uchod.

ch) **Materion yn y Gymuned – iii) Clytio Lôn Cae Du**
Derbyniwyd copi o e-bost a anfonodd Cyng. Dewi W. Roberts i ategu'r hyn a nodwyd o ran yr uchod. Hola, hefyd, beth sy'n digwydd i Lôn Engan yn dilyn cwblhau'r gwaith o ddatblygu hen safle Gwesty'r Harbwr a Phenybont – fe'i hysbyswyd gan Wyn Williams (Cyn-aelod Lleol) ym mis Mai y llynedd yr ailwynebid hi pan gwblheid y gwaith ac y gorffennodd beiriannau a lorïau mawr dramwyo'r ffordd.

d) **Rhybudd Cau Ffordd ger Bryn Eithin, Mynytho**
Derbyniwyd gohebiaeth bellach yn nodi y canslwyd y gwaith.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau***
- Ni chysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, na Wyn Williams, Rheolwr Cefn Gwlad, i fynegi siomedigaeth nad ymatebwyd i'r ohebiaeth
- Derbyniwyd e-bost yn nodi y cyfrannir yr un swm fel ad-daliad torri'r llwybrau am y flwyddyn 2018 – 2019; penderfynir ei dderbyn.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**
i) ***Bwletin mis Chwefror***
Copi, er gwybodaeth – argraffwyd Taflen Ffeithiau Côd Ymddygiad – Asesu Budd y Cyhoedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
ii) ***Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor***
Cynhelir yr uchod nos yfory yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli – gobeithia'r Clerc ei fynychu.
iii) ***Ymgynghoriad ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru – Ein Hamgylchedd Hanesyddol***
Angen sylwadau erbyn Mai 18fed.

b) **Llywodraeth Cymru – Canllaw i Brif Gynghorau ar Arolygon Cymunedol**
Copi, er gwybodaeth.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

| | |
|---|---|
| C17/1225/39/LL | Lleoli dwy garafán sefydlog ychwanegol ar y safle presennol, ynghyd â gwelliannau i'r safle a gosod carafán sefydlog fel swyddfa/derbynfa – Pant Gwyn Cottage Caravan Park, Sarn Bach – **Gwrthodwyd** |
| C17/1258/39/LL | Addasu siop yn uned wyliau – Yr Hen Fecws, Stryd Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/1261/39/LL | Estyniad unllawr cefn â theras ar y to, estyniad deulawr blaen a ffenestri gromen – Bro Heli, 28 Tan-y-Gaer, Aber-soch – **Gwrthodwyd** |

| | |
|---|---|
| C18/0027/39/LL | Estyniad deulawr i gefn yr annedd – Wharfdale, Lôn Rhoslyn, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C18/0035/39/LL | Adeiladu balconi i'r blaen a chyfnewid ffenestr am ddrws patio – 271 Cae Du, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C18/0039/39/LL | Tynnu Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio C10A/0397/39/AM sy'n amodi'r tŷ i fod yn gartref parhaol – Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C18/0063/39/LL | Estyniad ac addasiadau yn cynnwys codi uchder crib to a gosod ffenestr gromen – Clogwyn, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau** |
| C18/0154/39/AC | Rhyddhau Amodau 3 (llechi), 4 (carreg) a 5 (sinc) o Ganiatâd Cynllunio C16/1673/39/LL – Y Fras, Mynytho **– Caniatawyd yn ddi-amodol** |

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**

Cadarnhawyd talu cyflog mis Mawrth (Rh/S 002130) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) R.W. Griffith – £530.00 (Rh/S 002128 – Torri Gwellt a Thocio Coed Tir y Cyngor)
b) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002129 – Talu Wrth Ennill)
c) Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a'r Fro – £100.00 (Rh/S 002131 – Cyfraniad)
ch) O Ddrws i Ddrws – £300.00 (Rh/S 002132 – Cyfraniad)
d) Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd – £100.00 (Rh/S 002133 – Cyfraniad)
dd) Dawns i Bawb – £100.00 (Rh/S 002134 – Cyfraniad)
e) Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog – £200.00 (Rh/S 002135 – Cyfraniad)
f) Theatr Bara Caws – £100.00 (Rh/S 002137 – Cyfraniad)
ff) Cyngor Gwynedd – £497.64 (Rh/S 002138 – Cyfraniad)

**Derbyniadau**

a) Toiledau – £7.80 (Tâl Mynediad)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Ebrill 11eg, 2018 am saith o'r gloch